# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
# Adroddiad Blynyddol 2024-2025
# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

*This document is also available in English*

## 1. Cefndir

Daeth y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 2024.

Bwriad y ddeddfwriaeth yw cryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol o ran gwneud penderfyniadau strategol. Mae cynnwys cyflogwyr, gweithwyr ac undebau llafur mewn trafodaethau allweddol o ran gwella lles yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi arbenigedd a chyfraniad unigryw y rhai sy’n ymgysylltu’n uniongyrchol â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus wrth fynd i’r afael â heriau a rennir a cheisio datrysiadau arloesol. Bwriad y darpariaethau hyn yw hyrwyddo cydweithrediad, cryfhau polisi a gwella canlyniadau, trwy ddialog rhwng partneriaid cymdeithasol, a gyflawnir mewn partneriaeth gymdeithasol.

Mae’r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn nodi: er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o’i staff yn y broses o osod amcanion neu wneud penderfyniadau, trwy:

(a) ymgynghori â nhw ar ddechrau’r broses, a
(b) fel arall, eu cynnwys trwy gydol y broses trwy:
- (i) ddarparu gwybodaeth ddigonol er mwyn eu galluogi i ystyried yr hyn a gynigir, a
- (ii) darparu digon o amser i’w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn a gynigir ac i ymateb.

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus lunio adroddiad blynyddol i dystiolaethu sut maent wedi cydymffurfio â’r ddyletswydd, ac mae’n rhaid ei gyflwyno i’r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn ei graffu. Mae Adran 18 o’r Ddeddf yn cyfeirio at y gofyniad am adroddiadau blynyddol fel a ganlyn:

(1) Rhaid i gorff cyhoeddus lunio, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â’r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â’r ddyletswydd.
(2) Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill o’i staff, neu rhaid i’r adroddiad gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.
(3) Rhaid i’r corff cyhoeddus gyhoeddi’r adroddiad, a’i gyflwyno i’r CPG, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

## 2. Cyflwyniad

Rydym wastad wedi ymfalchïo mewn cael perthnasau gwaith cadarnhaol ac adeiladol gyda’r holl undebau llafur cydnabyddedig. Mae gennym eisoes berthynas partneriaeth gymdeithasol sefydledig yng Nghonwy ac er nad oedd angen deddfwriaeth i wneud i hyn

ddigwydd, rydym yn cydnabod bod yno le i wella. Fel rhan o'n trafodaethau gyda chydweithwyr Undebau Llafur, rydym hefyd yn cydnabod bod rhai meysydd penodol o hyd y mae angen i ni eu hystyried ymhellach, yn enwedig ar lefel strategol, a fyddai'n ein galluogi ni i wneud y mwyaf o'r cyfraniadau ac arbenigedd gwerthfawr ac unigryw y gellir eu hennill drwy ddeialog mewn partneriaeth gymdeithasol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod UNSAIN, GMB ac Unite at ddibenion trafod ac ymgynghori ar gyfer y rhan fwyaf o staff (ac eithrio ysgolion) ac i ysgolion, rydym hefyd yn cydnabod Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, NEU, NASUWT, UCAC ac ASCL.

Mae gennym nifer o drefniadau ar waith yng Nghonwy lle rydym yn ymgysylltu ag undebau llafur ac yn eu cynnwys (gellir dod o hyd i restr lawn yn 3.4 isod). Fel sefydliad, rydym yn cydnabod bod undebau llafur yn cyflawni rôl bwysig o ran cynnal perthnasau diwydiannol da a bod cydweithio mewn partneriaeth o fudd i bawb fel bod pawb yn deall yn llawn yr hyn sy'n gyrru newid, bod rheolwyr yn gallu gwrando ac ymateb i leisiau staff, a bod undebau llafur yn gallu hysbysu a chynnwys eu haelodau'n well, gan sicrhau bod ein trefniadau gweithio yn addas i bwrpas ond hefyd yn deg, yn berthnasol ac yn dryloyw. Nodwyd nad oedd UNSAIN wedi'u cynnwys ym mhob cyfarfod Addysg yn ystod y cyfnod ond mae hyn wedi'i gywiro bellach.

Mae gweithio'n agos gydag undebau llafur hefyd yn cefnogi cydymffurfiaeth â safonau uchel o Iechyd a Diogelwch, ac rydym yn cynnal cyfarfodydd Grŵp Arweinyddiaeth Iechyd a Diogelwch chwarterol sy'n cael eu cadeirio gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio ac yn cael eu mynychu gan y Prif Weithredwr lle mae polisi, ymarfer a pherfformiad yn cael eu hadolygu. Mae nifer o gyfarfodydd Iechyd a Diogelwch eraill yn cael eu cynnal ar draws y Cyngor ac mae'r rhain yn cael eu mynychu gan Gynrychiolwyr Undebau Llafur Iechyd a Diogelwch yn ogystal â Chynrychiolwyr Diogelwch Gweithwyr ar gyfer staff heb undeb, yn ogystal â staff sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch o fewn y gwasanaethau. Mae pob un o'r 8 o undebau llafur yn ymwneud â'r cyfarfodydd hyn. Mae cyfarfodydd Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Hybu Iechyd Corfforaethol hefyd yn cael eu trefnu bob chwarter, er hynny, ni chynhaliwyd unrhyw un yn ystod y cyfnod presennol hwn ac mae'r mecanwaith ar gyfer cytuno ar eitemau ar y rhaglen yn cael ei adolygu.

Rydym ar siwrnai gadarnhaol i wella cynhwysiant yr holl staff yng Nghonwy, gan gynnwys gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig. Mae ein Strategaeth Conwy Gynhwysol a lansiwyd yn ddiweddar, yn gam pwysig ar y siwrnai hon i gryfhau ein nod strategol bod pobl yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth, eu bod yn cael eu cynnwys a bod ganddynt lais.

## 3. Bodloni'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae'r adran ganlynol yn grynodeb o sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bodloni'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol:

### 3.1 Dod i Gytundeb ar Amcanion Lles (a chanlyniadau)

Cafodd ein **Cynllun Corfforaethol** 5 mlynedd ei lansio yn 2022 ac mae'n ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Nodau Lles cenedlaethol. Ar adeg datblygu ein Cynllun Corfforaethol, cynhaliwyd gweithdai gyda staff, cynghorwyr, undebau llafur a'r cyhoedd i gael awgrymiadau ac adborth i gytuno ar y blaenoriaethau allweddol ar

gyfer ein Cynllun Corfforaethol.  Mae ein nodau wedi cael eu datblygu gan roi ystyriaeth i'r Nodau cenedlaethol, yn ogystal ag asesiad o Les yn ein Sir ac amcanion ein partneriaid hefyd. Yn sail iddo hefyd mae llu o gynlluniau a strategaethau gwasanaeth ategol sy'n cyfleu manylion gweithredol yr hyn rydym yn ei gyflawni o ddydd i ddydd.  Cafodd y Cynllun Corfforaethol ei adolygu yn ystod 2024 i fynd i'r afael yn well â'r heriau ariannol oedd yn wynebu'r sector cyhoeddus ac roedd yn canolbwyntio ar gynnal sefydlogrwydd ariannol, sy'n hollbwysig i barhau i ddarparu gwasanaethau.  Cafodd y newidiadau arfaethedig eu rhannu a'u trafod gyda chydweithwyr undebau llafur fel rhan o'r broses ymgynghori a chytunwyd ar y Cynllun Corfforaethol drafft diwygiedig 2025-2027 gydag undebau llafur yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol mwyaf diweddar ym mis Chwefror 2025.

Cafodd adroddiad **Hunanasesiad o Berfformiad** y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023-2024 a oedd yn darparu dadansoddiad diwedd blwyddyn o'r cynnydd a'r heriau yn ymwneud ag amcanion perfformiad allweddol a meysydd llywodraethu a gynhwyswyd yn y Cynllun Corfforaethol, ei rannu gyda'r undebau llafur ym mis Hydref 2024.   Cafodd nifer o feysydd eu trafod gyda chydweithwyr undebau llafur, yn cynnwys cyfarfodydd 1:1 Sgwrs Conwy; Cynllun Awgrymiadau Staff; Cynlluniau Arolwg Staff; Gwella ymgysylltu â staff; Gwella cyfathrebu ar gyfer staff rheng-flaen a materion Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â Cherbydau Trydan.   Cytunwyd ar yr adroddiad Hunanasesiad diwedd blwyddyn ar gyfer 2023-2024 gan undebau llafur yn ystod y drafodaeth honno.

Rydym yn adolygu ein perfformiad bob 6 mis a chafodd yr adroddiad diweddaraf ar gyfer yr Hunanasesiad o Berfformiad a'r dadansoddiad canol blwyddyn o gynnydd ar gyfer y cyfnod Ebrill – Medi 2024, ei rannu gyda'r undebau llafur yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol ar 6 Chwefror 2025.  Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys yr heriau a meysydd llywodraethu a pherfformiad allweddol.   Gwnaed sylwadau gan yr undebau llafur bod yr adroddiad yn rhoi darlun cadarnhaol er gwaetha'r amgylchiadau ariannol.   Diolchwyd i'r undebau llafur am eu mewnbwn a'r gefnogaeth gyda'r gwaith hwnnw ac awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth i rannu newyddion da o'r adroddiad gyda phreswylwyr a staff i fynd i'r afael â'r sylw negyddol y mae'r Cyngor yn ei gael yn aml yn genedlaethol. Cytunwyd ar adroddiad canol blwyddyn yr Hunanasesiad gan yr Undebau Llafur.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, mynegwyd rhai pryderon gan undebau llafur am yr oedi mewn cyfathrebu i staff yn ystod y toriadau i'r cyflenwad dŵr ym mis Ionawr 2025.   Eglurwyd bod y sefyllfa wedi newid o awr i awr ac nid oedd diffyg cyflenwad cyson ar draws pob safle a oedd wedi gwneud pethau'n fwy cymhleth.   Er gwaetha'r problemau anochel a gododd yn ystod yr argyfwng, cytunodd yr holl bartïon y dylid diolch i staff Conwy am eu hamynedd, eu cydweithrediad a'u gwaith caled yn ystod yr argyfwng.   Derbyniwyd y bydd wastad gwersi i'w dysgu mewn sefyllfaoedd brys o'r fath a chytunwyd y byddai undebau llafur yn cael gwahoddiad i unrhyw ôl-drafodaethau a gynhelir fel bod eu hadborth yn gallu hysbysu'r adolygiad.

### 3.2 Dod i Gytundeb ar benderfyniadau o natur strategol o ran bodloni ein Hamcanion Lles (a chyfaddawdu a chanlyniadau)

Yn ogystal â'r meysydd hynny a gynhwyswyd uchod, mae'r meysydd eraill o natur strategol neu sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Corfforaethol sydd wedi'u trafod a'u cytuno arnynt yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys:

3.2.1 Mae **trafodaethau ynghylch y sefyllfa ariannol a gosod y gyllideb** ar gyfer y sefydliad wedi'u cynnal yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol gyda'r Cyfarwyddwr

Strategol, Cyllid ac Adnoddau – ac mewn cyfarfodydd ymgynghorol eraill, fel Cyfarfodydd Ymgynghorol AFfCh a Chyfarfodydd Undeb Addysg, lle mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid yn rheolaidd. Mae dogfennau cyllideb cynhwysfawr wedi'u darparu i undebau llafur cyn y Cydbwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol i alluogi i'r wybodaeth gael ei chraffu a'i chwestiynu yn ystod y cyfarfodydd hynny. Cafwyd trafodaethau yn ymwneud â dyfarniadau cyflog, cymharu'r darlun ariannol mewn Awdurdodau Lleol eraill, materion o ran ffynonellau cyllid a materion sy'n codi. Mae undebau llafur hefyd wedi'u cynnwys mewn trafodaethau yn ymwneud â chynigion ac awgrymiadau ar arbediad effeithlonrwydd a thrwy'r broses ymgynghori mewn achos o unrhyw ddiswyddiadau posibl, gan sicrhau ein bod yn amddiffyn swyddi lle bynnag y bo'n bosibl.

3.2.2 Mae gwybodaeth **Dangosfwrdd y Gweithlu** wedi'i ddarparu i'r Undebau Llafur – gan gynnwys nifer y staff yn ôl categori cyflogaeth, dechreuwyr/ymadawyr, ffigurau absenoldeb/rhesymau dros absenoldeb ar gyfer y Cyngor cyfan, ysgolion ac nad ydynt yn ysgolion, proffil oedran. Cynhaliwyd trafodaethau yn ymwneud â sut all rheolwyr leddfu pwysau staff ymhellach, a rheoli absenoldeb salwch yn well. Yn ddiweddar mae undebau llafur wedi arsylwi y gallai Cyfarfodydd Adolygu Absenoldeb ganolbwyntio fwy ar gefnogi yn hytrach na chanolbwyntio ar yr ochr hysbysiad gwella a chymerwyd nifer o gamau gweithredu yn ymwneud â'r broses hon i wella'r broses, yn cynnwys gwneud diwygiadau i'r Polisi Rheoli Presenoldeb.

3.2.3 Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd **Siarter Gwrth-hiliaeth UNSAIN,** a fabwysiadwyd ym mis Hydref 2023, yn cynnwys sefydlu Grŵp Llywio Conwy Gynhwysol, adolygu'r Polisi Gwrth-aflonyddwch, Strategaeth Conwy Gynhwysol newydd a chyflwyno rhaglen o sesiynau ymwybyddiaeth i staff.

3.2.4 Ar 8 Tachwedd 2024 cynhaliom weithdy o'r enw **Cryfhau Partneriaethau Cymdeithasol yng Nghonwy** gyda phob un o'r 8 o undebau llafur cydnabyddedig a chynrychiolwyr rheoli allweddol, yn ogystal ag Arweinydd y Cyngor, i drafod sut allwn gydweithio'n well mewn Partneriaeth Gymdeithasol. Dechreuodd y sesiwn gyda throsolwg o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a'r hyn yr oedd yn ei olygu i ni yng Nghonwy ac yno cafwyd meysydd trafod penodol yn cynnwys: aelodaeth, safonau ymddygiad a disgwyliadau ymgysylltu; asesu cryfderau a gwendidau cyfarfodydd ymgynghorol presennol a sut ellir eu gwella; ac Amser Cyfleusterau a p'un ai bod dal angen y cytundeb ffurfiol hwn.

Cafwyd 6 trafodaeth o amgylch y bwrdd gyda chymysgedd o reolwyr a Chynrychiolwyr Undebau Llafur ac Ysgrifenyddion Cangen ar bob bwrdd. Cafodd dogfen grynodeb o'r cyfarfod ei rhannu yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol ym mis Chwefror 2025 gydag undebau llafur a rheolwyr (gweler Atodiad 1). Meysydd a drafodwyd: Pryderon ynghylch cyfathrebu â staff yn ystod y toriad yng nghyflenwad dŵr diweddar Dŵr Cymru a'r angen i ddysgu gwersi ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol; awgrymodd undebau llafur y dylai'r ymddygiadau dymunol a nodwyd o'r gweithdy gael eu hintegreiddio yn y broses recriwtio a hefyd eu defnyddio i ddiweddaru'r Llyfryn Parch. Mae gwaith pellach yn dal wedi'i gynllunio i adolygu'r mecanweithiau ar gyfer codi eitemau ar raglenni ac Amser Cyfleusterau.

3.2.5 Mae ymgynghoriad **gwaith Polisi** yn nodwedd reolaidd o'r cyswllt â Chynrychiolwyr Undebau Llafur ac yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ymgynghori ar y polisïau canlynol:

- Polisi Amser Hyblyg
- Polisi Cwynion
- Polisi Gwyliau
- Taliadau aflonyddu mewn gweithle hybrid
- Polisi Tandaliad/Gordaliad
- Polisi yn erbyn Aflonyddu
- Cyfnodau Prawf
- Polisi Rheoli Presenoldeb
- Polisi Gwyliau Blynyddol
- Polisi Recriwtio a Dewis
- Trefniadau Lleol Gwerthuso Swyddi
- Polisïau sy'n Ystyriol o Deuluoedd
- Polisi Ymddeoliad

Yn gyffredinol mae trafodaeth dda, ystod o gwestiynau, a chytundeb yn gyffredinol ar unrhyw argymhellion neu newidiadau i bolisïau, gyda'r eithriad prin iawn lle rydym yn methu â dod i gytundeb. Un enghraifft o'r fath o'r rhestr uchod oedd mewn perthynas â'r angen i adennill costau ar gyfer ceisiadau hyblyg ac ymddeoliad cynnar lle mae cost i'r sefydliad drwy gytuno ar ryddhau pensiwn yn gynnar. Roedd y diwygiad i'r polisi yn gofyn i'r cais fod yn niwtral o ran cost neu wedi'i adennill yn llawn o fewn 12 mis. Cynigiwyd y newid hwn oherwydd y sefyllfa ariannol heriol bresennol ac fe'i wnaed i reoli disgwyliadau staff. Mae hefyd yn werth nodi mai dyma lle mae staff yn gwneud cais i adael eu cyflogaeth yn gynnar, nad yw bob amser er lles pennaf y sefydliad.

Cafwyd llawer o drafodaeth ynglŷn â'r cynnig i symud Cynghorwyr o gam terfynol y broses Gwynion a barn yr undebau llafur oedd eu bod yn darparu safbwynt annibynnol gwerthfawr o'r sefyllfa a bu i'r adborth hwn ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol i gadw cyfranogiad Cynghorwyr yn y Panel Cwynion cam 2.

Cynhaliwyd trafodaethau estynedig am y Polisi Rheoli Presenoldeb drafft yn ymwneud â'r sbardunau yr ydym yn eu defnyddio a allai gael effaith anghyfartal ar staff nad ydynt wedi'u lleoli yn y swyddfa sy'n gweithio'r tu allan ac athrawon ond pan wnaethom ystyried sut ellir mynd i'r afael ar hwn, yn y pen draw, daeth rheolwyr ac undebau llafur i'r casgliad mai'r trefniadau presennol o bosibl oedd y datrysiad mwyaf teg cyn belled â bod rheolwyr yn defnyddio eu disgresiwn yn gyson.

3.2.6 Mae **sawl achos o ailstrwythuro** wedi'u rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ac mae ymgynghori ag Undebau Llafur yn allweddol ar gyfer rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn esmwyth lle mae rheolwyr ac undebau llafur yn cydweithio i leihau'r effaith ar staff a cheisio achosi cyn lleied o aflonyddu â phosibl, er enghraifft mewn Gofal Cymdeithasol a Venue Cymru. Lle mae swyddi yn cael eu colli o ganlyniad i hyn, cynigir cymorth o ran ysgrifennu CVs/Ceisiadau a hyfforddiant, hyfforddiant ar sgiliau cyfweliad, amser i ffwrdd ar gyfer mynd i gyfweliadau, cymorth gydag adleoli, cyngor ar fuddion a phensiynau yn ogystal â sicrhau bod staff yn derbyn unrhyw gymorth emosiynol sydd ei angen arnynt yn ystod y cyfnod anodd hwn trwy ein rhaglen cymorth i weithwyr.

### 3.3 Amlder y Cyfarfodydd

Rhoddir crynodeb o'r prif gyfarfodydd a gynhelir gyda'r Undebau Llafur isod. Mae manylion y cyfarfodydd a'r meysydd i'w trafod sydd wedi'u cynnal dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi'u nodi yn Atodiad 2.

- Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol Chwarterol
- Cyd-bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Hybu Iechyd Corfforaethol Chwarterol
- Cyfarfod Adnoddau Dynol bob 6 wythnos gydag Undebau Llafur
- Cyfarfod Addysg bob 6 wythnos gydag Undebau Llafur
- Cyfarfodydd Cydbwyllgor Ymgynghorol yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau Chwarterol
- Presenoldeb mewn cyfarfod Cyngor Cyswllt Cymru ddwywaith y flwyddyn
- Cydweithio ar Baneli Gwerthuso Swyddi drwy gydol y flwyddyn
- Cyfarfodydd Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch Chwarterol
- Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth Chwarterol

Yn ogystal â'r uchod, mae cyfarfodydd cyswllt ac ymgynghorol anffurfiol eraill yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â thrafodaethau ffurfiol a chefnogaeth i staff o ran absenoldeb a materion ymddygiad, polisi neu ailstrwythuro a chyfarfodydd ad hoc o dro i dro fel sy'n ofynnol gan reolwyr a/neu undebau llafur.

### 3.4 Hyfforddiant a ddarperir i Undebau Llafur

Mae gan Gynrychiolwyr Undebau Llafur wahoddiad agored i hyfforddiant ar Iechyd a Diogelwch ac mae'r rhan fwyaf wedi cael eu hyfforddi hyd at safon Rheoli'n Ddiogel IOSH ac wedi cymhwyso ag IOSH.

Rydym yn darparu hyfforddiant ar Werthuso Swyddi i Gynrychiolwyr Undebau Llafur ac maent yn rhan annatod o'r broses Gwerthuso Swyddi cytunedig. Rydym yn ymdrechu i gael Cynrychiolydd Undebau Llafur hyfforddedig ar yr holl Baneli Gwerthuso Swyddi Bach ac mae angen cynrychiolaeth Undebau Llafur bob amser ar Baneli Gwerthuso Swyddi Bach.

Rydym yn cefnogi Cynrychiolwyr Undebau Llafur i fynychu hyfforddiant Undebau Llafur gan ein bod yn cydnabod bod hwn yn rhan bwysig o'u gallu i weithredu'n effeithiol mewn partneriaeth. Yn bwysicaf oll, fel aelodau o staff, mae ganddynt hefyd fynediad at hyfforddiant corfforaethol sydd wedi'i nodi yn ein calendr Academi Hyfforddiant ac sydd ar agor i bawb i ofyn am bresenoldeb.

Cynhaliwyd sesiwn fer ar Bartneriaeth Gymdeithasol i'r holl undebau llafur a oedd yn bresennol yn y digwyddiad Cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghonwy ym mis Tachwedd 2024 fel rhan o'r cyflwyniad i'r sesiwn ar drafod Partneriaeth Gymdeithasol.

### 3.5 Enghreifftiau o weithgareddau sy'n datblygu'n dda – astudiaethau achos

3.5.1 Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda Chynrychiolwyr Undebau Llafur o ran cynnal cywirdeb ein **Cynllun Gwerthuso Swyddi** drwy sicrhau bod digon o Gynrychiolwyr yn cael eu hyfforddi a bod rheolwyr yn gydweithredol o ran rhyddhau aelodau i ymgymryd â'r gwaith hwn gan eu bod yn gweld y buddion o'u cyfranogiad i'w gwasanaethau eu hunain. Yn ystod

y flwyddyn bu i ni ddiweddaru ein Polisi Gwerthuso Swyddi a'n Trefniadau Lleol, lle'r oedd y ddau yn cynnwys mewnbwn sylweddol gan gydweithwyr undebau llafur sydd wedi ennill llawer o brofiad yn ymwneud â Gwerthuso Swyddi yn sgil eu gwaith ar baneli ac wrth gefnogi staff i geisio adolygiad o'u swydd.

3.5.2 Ymgynghorir â Chynrychiolwyr Undebau Llafur yn rheolaidd wrth geisio mynd i'r afael ar ffigurau **absenoldeb salwch** cynyddol – p'un a bod hyn trwy gefnogi achosion unigol i helpu staff i ddychwelyd i'r gwaith neu i amddiffyn eu hurddas wrth adael y sefydliad, neu wrth edrych ar reoli absenoldebau ar lefel mwy strategol, ceisio datrysiadau i gefnogi rheoli absenoldebau gyda'r bwriad o leihau lefelau cyffredinol o absenoldeb salwch sydd yn ei dro yn helpu'r sefyllfa ariannol. Caiff y Polisi Rheoli Presenoldeb ei adolygu o dro i dro ac mae wedi bod yn cael ei adolygu eto yn ystod y flwyddyn bresennol hon ac mae'r polisi yn cael ei graffu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn deg a bod gan yr undebau lais cryf wrth siapio'r maes hwn o waith, darparu adborth defnyddiol ar ein trefniadau Iechyd Galwedigaethol a Chymorth i Weithwyr o safbwynt staff. Mae Cynrychiolwyr Undebau Llafur hefyd wedi bod yn weithredol o ran cefnogi'r gwaith yr ydym wedi'i wneud ar fentrau iechyd meddwl trwy ein menter Amser i Newid Cymru drwy hwyluso digwyddiadau yn lleol ac annog rheolwyr i gymryd rhan.

3.5.3 Mae Undebau Llafur yn aml yn ei gweld hi'n anodd **recriwtio Cynrychiolwyr newydd**, yn sicr, mae gennym ddau allan o dri phrif undeb llafur sydd ond gydag un neu ddau o Gynrychiolwyr i gefnogi eu haelodau. Mae hyn yn golygu bod rhai Cynrychiolwyr Undebau Llafur yn ei gweld hi'n heriol cydbwyso eu swydd gyda'u rôl undeb. Nid ydym wedi cytuno ar gyfyngiadau penodol i Amser Cyfleusterau ar gyfer Cynrychiolwyr unigol sydd wedi elwa'r holl Undebau Llafur ond rydym hefyd yn cydnabod ei fod yn elwa rheolwyr ac Adnoddau Dynol o ran cadw prosesau yn gadarn ac wedi'u herio. Rydym wedi nodi dyddiad recriwtio ar gyfer yr undebau i ganolbwyntio ar geisio cynrychiolwyr ychwanegol o fewn y gweithlu. Yn un o gyfarfodydd y Fforwm Rheolwyr eleni, bu i'r Pennaeth Pobl a Pherfformiad a rheolwr sy'n cyflogi nifer o Gynrychiolwyr Undebau Llafur yn eu hardal, rannu eu profiad o gyflogi Cynrychiolwyr Undebau Llafur a'r buddion y gall hyn ei roi i berthnasau diwydiannol da gyda'r amcan o annog rheolwyr eraill i edrych ar unrhyw geisiadau fel cyfle.

Mae trafodaethau yn ymwneud â chytuno ar **Gytundeb Cyfleusterau** ffurfiol wedi'u hoedi yn bennaf gan nad yw'r Undebau wedi cytuno ar ba amser ffurfiol y maent ei angen fel amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau undeb. Fodd bynnag, ni chodwyd unrhyw faterion am y diffyg amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau undebau, y broblem yw bod Cynrychiolwyr mewn cyfyng gyngor rhwng eu swydd, y maent yn ei fwynhau, a'r dyletswyddau undeb y mae angen iddynt ei wneud, sydd fwy i'w wneud â'r diffyg staff sy'n gwirfoddoli i ddod yn Gynrychiolwyr Undebau Llafur.

3.5.4 Rydym wedi cael nifer o broblemau'n ymwneud â'n hadran **Cludiant** gyda nifer o newidiadau o ran rheoli sydd wedi effeithio ar weithrediadau a morâl staff. Mae nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal gydag unigolion sydd wedi bod yn anfodlon â sut mae pethau'n mynd. Yn dilyn penodi Cynrychiolydd Undebau Llafur newydd yn y gwasanaeth, mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda'r Cynrychiolydd newydd ac Ysgrifennydd y Gangen sydd wedi codi materion a phryderon sydd wedi arwain at nifer o welliannau yn cael eu gwneud i'r Gweithdy a'r prosesau. Yn ddiweddar bu i Ysgrifennydd y Gangen longyfarch y tîm am yr hyn y maent wedi'i wneud gan fod y staff yn llawer hapusach nag yr oeddent.

3.5.5 Mae Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau yn cynnal nifer o gyfarfodydd Iechyd a Diogelwch ar draws y gwasanaeth ac mae ganddynt hefyd grŵp

Iechyd a Diogelwch trosfwaol. Yn ystod y flwyddyn maent wedi ymgynghori â'r Undebau Llafur wrth ddatblygu'r **Arolwg Hinsawdd Ddiogelwch** diweddaraf. Gwnaeth yr Undebau Llafur rhai argymhellion i'r drafft a chafodd yr arolwg ei diwygio yn seiliedig ar eu sylwadau a'i anfon at yr holl staff AFfCh yn ystod 2024. Cafodd copi o'r arolwg ei rannu gyda phob un o'r 3 undeb llafur i sicrhau eu bod yn barod rhag ofn i aelodau gysylltu â nhw a bu iddynt hefyd helpu i hyrwyddo'r arolwg ac annog cymaint o bobl â phosibl i'w gwblhau.

3.5.6 Mae mynediad at aelodaeth yr undebau llafur cydnabyddedig yn cael ei rannu yn ystod ein **Rhaglen Gynefino Gorfforaethol** bob 6 wythnos ac mae manylion o ran pwy i gysylltu â nhw a'r buddion o ymuno ag undeb llafur yn cael eu rhannu gyda'r holl ddechreuwyr newydd.

3.5.7 Mae'r gwaith ar **nodi ymddygiadau dymunol** fel rhan o Gryfhau Partneriaethau Cymdeithasol yng Nghonwy yn datblygu a bydd yn cael ei adrodd arno ymhellach yn yr adroddiad blynyddol nesaf. Y bwriad yw y bydd yr ymddygiadau wedi'u mireinio hyn nid yn unig yn berthnasol ar gyfer gweithio ar y cyd gydag undebau llafur ond bod modd iddynt gael eu mabwysiadu'n gorfforaethol hefyd.

## 4. Casgliad

Roedd cyflwyno'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn rhoi'r cyfle i ni adolygu ein ffordd bresennol o weithio gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig i gyflawni'r bwriad o gryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol o fewn y broses gwneud penderfyniadau strategol.

Fel y gwelir o'r adroddiad hwn a'r atodiadau, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n hundebau llafur dros y flwyddyn ddiwethaf gyda dros 38 o ymgynghoriadau ffurfiol a chyfarfodydd Iechyd a Diogelwch yn cael eu cynnal. Mae hynny yn ychwanegol at y nifer o gyfarfodydd anffurfiol, gwrandawiadau ffurfiol ac achosion eraill lle mae undebau llafur a rheolwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys materion a sicrhau bod proses teg yn cael ei gymryd.

Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu arno ymhellach drwy weithio ar y cyd â'n hundebau llafur i gwblhau Offer Asesu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol sydd wedi'i gynnwys yn y Llawlyfr Partneriaeth Gymdeithasol. Bydd hyn yn ein helpu ni i ystyried a yw'r bartneriaeth yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gydweithio a chynyddu llwyddiant a'n helpu ni i nodi a oes unrhyw feysydd eraill y gallwn ni eu gwella.

### 4.1 Meysydd a nodwyd i'w gwella

- 4.1.1 Ymgymryd â mwy o waith gyda rheolwyr canol yn ymwneud â buddion a phwysigrwydd partneriaeth gymdeithasol gydag undebau llafur ac annog gwasanaethau mwy i ymgysylltu'n rheolaidd ag undebau llafur.
- 4.1.2 Datblygu cynllun gwaith i sicrhau bod undebau llafur yn cael eu cynnwys mewn prosesau strategol yn brydlon.
- 4.1.3 Gwahodd undebau llafur i fynychu ôl-drafodaethau ar ddigwyddiadau mawr sy'n ymwneud â staff fel bod eu hadborth yn gallu hysbysu'r adolygiad.
- 4.1.4 Sicrhau bod yr holl gynrychiolwyr undebau llafur yn gallu cael mynediad at ddata staff sy'n cael ei rannu'n aml, e.e. presenoldeb, dechreuwyr ac ymadawyr a llyfryn yr Academi Hyfforddiant.

4.1.5 AD a Gwasanaethau i sicrhau eu bod yn rhoi adborth i undebau llafur ar ailstrwythuro lle, er na fwriadwyd gwneud unrhyw ddiswyddiadau, oherwydd penderfyniadau'r rhai sydd wedi'u heffeithio, mae diswyddiadau yn digwydd.
4.1.6 Dosbarthu Calendr yr Academi Hyfforddiant i gynrychiolwyr undebau llafur pan mae'n cael ei gyhoeddi bob blwyddyn.
4.1.7 Mae angen gwella argaeledd Asesiadau Risg Gwasanaeth i gynrychiolwyr undebau llafur a staff.
4.1.8 Mae angen trefnu mynediad at y fewnrwyd, cyfeiriadau e-bost a gorsaf waith i rai cynrychiolwyr undebau llafur.
4.1.9 Ceisio cytuno ar Gytundeb Cyfleusterau ffurfiol.

**4.2 Cytundeb Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Gymdeithasol**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod UNSAIN, GMB ac Unite at ddibenion trafod ac ymgynghori ar gyfer y rhan fwyaf o staff (ac eithrio ysgolion) ac i ysgolion, rydym hefyd yn cydnabod Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, NEU, NASUWT, UCAC ac ASCL.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i drafod a'i gytuno gyda'r Undebau Llafur ac mae eu sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad.

**Atodiad 1**

## Cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghonwy – 8 Tachwedd 2024

**Rhaglen:**

1. Cyflwyniad i'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
2. Trafodaethau gweithdy:
   i. Mae'r Model ar gyfer Partneriaethau Cymdeithasol yn cyfeirio at fodel sy'n ceisio dod o hyd i gonsensws, yn hytrach na bargeinio ar sail safbwyntiau neu enillwyr a chollwyr gwrthwynebol. Yn gyffredinol, pa safonau ymddygiad a disgwyliadau ymgysylltu y dylid eu gosod?
   ii. Ar hyn o bryd, mae gan Gonwy gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol ac anffurfiol. Drwy asesu cryfderau a gwendidau pob math o gyfarfod, pa newidiadau y mae modd eu hystyried? A ddylid ailenwi'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol i adlewyrchu terminoleg y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol? A yw'r aelodaeth yn gyfredol?
   iii. Amser Cyfleusterau. Ar hyn o bryd, mae Conwy yn gweithredu model hyblyg er mwyn cefnogi amser cyfleusterau. Cynigiwyd gwerthusiad dewis i Undebau Llafur cydnabyddedig, er mwyn gwneud y trefniant hwn yn un ffurfiol – a oes angen hynny o hyd? A oes gennym gofnod cyfredol o system gymeradwyo a stiwardiaid Undebau Llafur?
3. Adborth o'r Gweithdy
4. Trafodaeth ar y ffordd ymlaen

Trafodwyd y Model Partneriaeth Gymdeithasol, safonau ymddygiad disgwyliedig, pwysigrwydd arferion cynhwysol a'r angen am gyfathrebu a chefnogaeth effeithiol o fewn sefydliadau. Roedd hefyd yn cynnwys trafodaethau ynglŷn â chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol, amser cyfleuster ar gyfer cynrychiolwyr undebau a phwysigrwydd tryloywder ac ymddiriedaeth.

## 1) Disgwyliadau Ymddygiad Cyfun

Roedd yr ystyriaethau allweddol fel a ganlyn:

- **Model Partneriaeth Gymdeithasol**: Nod y Model Partneriaeth Gymdeithasol yw canfod consensws yn hytrach na bargeinio cyfun, gan bwysleisio ymddygiad parchus a phroffesiynol hyd yn oed pan fo angen herio neu wneud sylwadau. Angen cydnabod y bydd adegau pan fydd yn rhaid i reolwyr ac undebau gytuno i anghytuno.
- **Safonau Ymddygiad ac Ymgysylltu**: Dylai safonau ymddygiad gynnwys bod yn gwrtais, parchus, gonest a chefnogol, gan ganolbwyntio ar agweddau cadarnhaol, gwrando ac ymddiriedaeth.
- **Pwysigrwydd Arweinyddiaeth a Chynhwysiant**: Mae arweinyddiaeth yn hanfodol ar bob lefel, a dylid pwysleisio cynhwysiant. Cafwyd cynnig i ddefnyddio'r gwerthoedd craidd fel penawdau ar gyfer datblygu ymddygiadau cytunedig.

- **Cyfathrebu Effeithiol**: Dylai cyfathrebu fod yn onest, amserol a pharchus, gyda phwyslais ar wrando ar safbwyntiau pawb a darparu crynodeb o adroddiadau hir (h.y. beth mae'r adroddiad yn sôn amdano, y pwyntiau allweddol a'r penderfyniad/y farn a geisir).
- **Tryloywder ac Ymddiriedaeth**: Mae tryloywder ac ymddiriedaeth yn hanfodol, yn enwedig wrth gyfathrebu prosesau ailstrwythuro a gwerthusiadau swyddi, pan fo darparu gwybodaeth gywir yn hollbwysig.
- **Iaith** – mae iaith blaen yn allweddol – a therminoleg – mae cyflwyno cwyn yn teimlo'n ffurfiol iawn.
- **Heriau wrth Gyfathrebu**: Mae pryderon ynghylch cyfathrebu aneffeithiol yn hidlo i lawr a'r angen am ddiweddariadau gwell ynglŷn â phenderfyniadau allweddol a gwahodd Aelodau Cabinet i gyfarfodydd pan fo'n briodol ac i feithrin perthnasau.
- **Canllawiau Ymddygiad**: Dylai canllawiau ymddygiad gynnwys gwrando gweithredol, cydnabod lleisiau amrywiol, empathi a rheoli disgwyliadau'n deg.
- **Amgylchedd Gweithio Cadarnhaol**: Gall amgylchedd gwaith cadarnhaol arbed arian a gwella cynhyrchiant, gan amlygu pwysigrwydd partneriaethau cymdeithasol. Mae ein ffocws ar graffu a materion – ond mae'n rhaid i ni hefyd rannu arferion da a chydnabod llwyddiannau a gwelliannau.

Cafodd yr Ymddygiadau Dymunol eu rhestru yn y Gweithdy fel yr isod ac awgrymwyd i ail-grwpio'r rhain dan werthoedd Corfforaethol fel yr isod:

**Teg**

- Cwrteisi, moesgarwch a pharch
- Cael eich trin fel cyfoed / fel yr hoffech gael eich trin
- Gonestrwydd
- Teimlo'n saff i wneud pwynt heb ôl-effaith
- Cael hyder yn y wybodaeth a ddarperir
- Ystyried yr hyn sy'n cael ei ddweud
- Dull cyson
- Cyfathrebu gonest ac amserol
- Cadw pethau'n broffesiynol ac nid yn bersonol
- Sicrhau ymarferion canfod ffeithiau priodol i helpu datrysiadau
- Gwrando gweithredol
- Cydnabod barn pobl a pheidio â'i thaflu allan
- Rheoli disgwyliadau'n deg
- Bod yn agored a thryloyw
- Magu hyder a chyfrinachedd

**Ymfalchïo**

- Agweddau cadarnhaol
- Teimlo'ch bod chi'n cael eich cefnogi a bod rhywun yn gwrando arnoch
- Sicrhau bod polisïau mewn Saesneg Clir
- Cydnabod gwaith a wneir yn ystod oriau personol
- Gwrando ar safbwyntiau pawb
- Rhoi amser i bobl baratoi a chyfleu eu barn
- Sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys ac yn cael cyfle i siarad
- Darparu crynodeb o adroddiadau hir

- Bod yn berson hawdd siarad â chi
- Defnyddio iaith glir ac nid 'iaith y Cyngor'
- Rhannu arferion da a chydnabod llwyddiannau
- Bod yn bresennol gyda bwriadau da i gefnogi'r gweithlu
- Empathi
- Teimlo'ch bod chi'n gallu siarad am faterion hyd yn oed os ydynt yn bethau bach
- Bod yn hyblyg i ddiwallu anghenion pobl a chanfod tir cyffredin
- Trefniadau cadw tŷ da a chaniatáu egwyl tŷ bach

**Chwaraewr Tîm**
- Blaenoriaethu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol
- Rhoi gwybod i staff am gyfarfodydd a thrafodaethau'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol
- Sicrhau bod polisïau yn gywir ac yn addas i'r diben
- Cofio y gall Cynrychiolwyr Undebau Llafur helpu i leddfu newidiadau a phrosesau gyda rheolwyr
- Annog twf drwy ddysgu a hyfforddiant

**Arloesol**
- Bod yn adeiladol a chael agwedd 'gallu gwneud'

[Mae'r rhain bellach wedi'u mireinio ymhellach a'u cytuno arnynt yn unol ag Atodiad 3]

Cafwyd hefyd trafodaeth yn ymwneud ag asesu'r mecanweithiau undebau llafur presennol. Roedd rhwystredigaethau gyda'r angen am adroddiadau ffurfiol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol ac y dylai teitl pwnc ynghyd ag eglurhad byr o'r pwnc fod yn ddigon a all hyrwyddo rhaglen mwy cynhwysol. Teimlad os nad oes gan y rheolwyr eitemau'r rhaglen, dylai'r cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal gan fod angen mwy o bwyslais ar ddarparu gwybodaeth gan y gall Undebau Llafur helpu gyda chanfyddiad y cyhoedd os oes ganddynt y wybodaeth i wneud hynny, e.e. am y gyllideb. Ceir cyfarfodydd ymgynghori gydag AD, AFfCh ac Addysg sy'n ddefnyddiol gan eu bod yn annog mwy o drafodaeth ac yn caniatáu unigolion i godi Unrhyw Fater Arall yn wahanol i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol. Awgrymwyd y dylai gwasanaethau mwy hefyd gael eu cyfarfodydd ymgynghori eu hunain.

Trafodwyd safonau cyfarfod ac egluro disgwyliadau ymddygiad a moesau ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Cytundeb y byddai'n ddefnyddiol cael Cytundeb Cyfleusterau cytunedig gan fod trafodaethau ar y mater wedi'u hoedi'n flaenorol. Meysydd eraill a drafodwyd: Mae angen i Gynrychiolwyr Undebau Llafur fod ar baneli Gwerthuso Swyddi: cydnabyddiaeth bod llawer o'r gwaith achos yn cael ei wneud yn amser rhydd y Cynrychiolwyr; effaith emosiynol rhai achosion.

**Atodiad 2**

## Cyfarfodydd Undeb a Gynhaliwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystod 2024-2025:

### Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol

**Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol - 29 Hydref 2024**
Eitemau ar y Rhaglen:

- Penodi Cadeirydd (UNSAIN) ac Is-Gadeirydd (Arweinydd y Cyngor)
- **Adroddiad Hunanasesiad o Berfformiad 2023-2024** (darparu dadansoddiad diwedd blwyddyn o gynnydd a heriau yn ymwneud ag amcanion perfformiad allweddol a meysydd llywodraethu. Y meysydd a drafodwyd: Cyfarfodydd 1:1 Sgwrs Conwy, Cynllun Awgrymiadau Staff; Cynlluniau Arolwg Staff; Gwella ymgysylltu â staff; Gwella cyfathrebu ar gyfer staff rheng-flaen, Materion Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â Cherbydau Trydan.)
- **Rhagolwg Ariannol ar gyfer 2025-2026** (cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Adnoddau, adroddiad gan amlinellu'r gweithgareddau i fynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol heriol fel cynnwys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) am gyngor ac Aelodau Cabinet yn lobïo Llywodraeth Cymru o ran y ffaith nad yw'r boblogaeth pobl hŷn yn cael ei hadlewyrchu yn y fformiwla ariannu. Meysydd a drafodwyd: Dyfarniad cyflog staff; darlun ariannol tebyg mewn Awdurdodau Lleol eraill; Cydnabyddiaeth gyhoeddus ar ffynonellau ariannu; fideo yn egluro pa wasanaethau y mae'r Cyngor yn ei ddarparu ac ystadegau allweddol i'w rhannu'n fuan.
- Roedd **Dangosfwrdd y Gweithlu ar gyfer 2023-2024** yn cynnwys nifer y staff yn ôl categori cyflogaeth, dechreuwyr/ymadawyr, ffigurau absenoldeb/rhesymau dros absenoldeb ar gyfer y Cyngor cyfan, ysgolion ac nad ydynt yn ysgolion, proffil oedran. Meysydd a drafodwyd: Trawsnewid yn cael ei ddefnyddio i leddfu pwysau staff; rhesymau dros absenoldeb salwch; roedd angen i Gyfarfodydd Adolygu Absenoldeb ganolbwyntio mwy ar gefnogaeth yn hytrach nag ar y cysylltiadau negyddol.
- **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd Siarter Gwrth-hiliaeth Unsain** (mabwysiadwyd ym mis Hydref 2023) yn cynnwys sefydlu Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Adolygu'r Polisi Gwrth-aflonyddwch, cyhoeddi Strategaeth Conwy Gynhwysol, penodi Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant, cyflwyno rhaglen o sesiynau ymwybyddiaeth.
- **Cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghonwy** – cafodd y rhaglen ddrafft ei rhannu ar gyfer cyfarfod a oedd yn cael ei gynnal ar 8 Tachwedd 2024. Gwahoddwyd yr holl Undebau Llafur yn cynnwys y rhai a gydnabuwyd gan Addysg.
- **Canlyniad y Bleidlais Gyflogau** – gweithredwyd y dyfarniad cyflog ym mis Tachwedd 2024.

**Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol - 6 Chwefror 2025**
Eitemau ar y Rhaglen:
**Cynllun Corfforaethol Drafft 2025-2027 -** Adolygiad drafft o'r Cynllun Corfforaethol, sy'n ceisio mynd i'r afael yn well â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac sy'n canolbwyntio ar gynnal sefydlogrwydd ariannol, a oedd yn hollbwysig i barhau i ddarparu gwasanaethau.
**Hunanasesiad o Berfformiad (Ebrill – Medi 2024)** – dadansoddiad canol blwyddyn o'r cynnydd, heriau, perfformiad allweddol a meysydd llywodraethu. Meysydd a drafodwyd:

adroddiad cadarnhaol er gwaetha'r amgylchiadau ariannol; diolchwyd i'r undebau llafur am eu mewnbwn a'u cefnogaeth; ystyriaethau i'w rhoi i rannu'r adroddiad gyda phreswylwyr a staff; roedd sylw negyddol am y Cyngor yn fater cenedlaethol; fideo am ein gwasanaethau ar y wefan.
**Cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghonwy** – Rhannwyd crynodeb o drafodaethau o'r cyfarfod ar 8 Tachwedd 2024. Meysydd a drafodwyd: Pryderon am gyfathrebu â staff yn ystod y toriad yng nghyflenwad dŵr diweddar Dŵr Cymru – sesiynau ôl-drafodaeth yn cael eu cynnal i ddysgu gwersi ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol; Undebau llafur i roi eu hadborth i hwyluso'r adolygiad, yn cynnwys pryderon am oediadau i ddanfoniadau dŵr i unigolion â blaenoriaeth; oediadau mewn ymatebion i gwynion; nodwyd ymddygiadau dymunol o'r gweithdy i'w hintegreiddio yn y broses recriwtio a'r Llyfryn Parch.

## Cyfarfodydd Ymgynghori AD:

Cynhaliwyd y cyfarfodydd canlynol yn ystod y flwyddyn

**24 Ebrill 2024**
Rhaglen:
- Ail-strwythuro Rheoli Lleoliadau
- Eglurhad o'r Fframwaith Matrics
- Y Broses Rheolaeth Ariannol
- Adolygiad Ffisiotherapi Pen y Lôn
- Bil Partneriaeth Gymdeithasol
- Gwasanaeth Cyfieithu
- Buddion (Gofal Llygaid, Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, Ap Buddion, Gwobrau Gwasanaeth Hir)

**13 Mehefin 2024**
Rhaglen:
- Cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol

**18 Gorffennaf 2024**
Rhaglen:
- Adran Cludiant Gofal Cymdeithasol
- Polisi Oriau Hyblyg
- Polisi Gwyliau
- Taliadau aflonyddu mewn gweithle hybrid
- Tandaliad/Gordaliad
- Polisi yn erbyn Aflonyddu

**5 Medi 2024**
Rhaglen:
- Galw Gofal – Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r rota
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ailstrwythuro'r Adran Rheoli Lleoliadau

**10 Hydref 2024**
Rhaglen
- Canllawiau i Reolwyr ar Gyfnodau Prawf
- Adolygu'r Polisi Rheoli Presenoldeb

- Rhaglen Preswyl Plant
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Adolygu'r Polisi Gwyliau Blynyddol

**21 Tachwedd 2024**
Rhaglen:
- Polisi Recriwtio a Dewis
- Cymeradwyaeth derfynol ar Drefniadau Lleol Gwerthuso Swyddi

**9 Ionawr 2025**
Rhaglen:
- Polisïau sy'n Ystyriol o Deuluoedd
- Y wybodaeth ddiweddaraf am Sgwrsio am y Menopos
- Diwrnod Amser i Siarad – 6.2.25

## Cydbwyllgor Ymgynghori Adran yr AFfCh:

**7 Hydref 2024**
Rhaglen:
- Rhagolwg Ariannol
- Cynllun Gweithredu Dweud eich Dweud
- Y Tîm Gwastraff yn Nepo Llanrwst
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gludiant (Fflyd)
- Newid Contractau Staff heb ymgynghori
- Hyfforddiant Fflyd ar gerbydau trydan
- Ffurflenni Bron â Digwydd

**9 Rhagfyr 2024**
Rhaglen:
- Rhagolwg Ariannol
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Fannau Agored – Garddwriaeth
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gludiant
- Amserlen Graeanu
- Diogelwch Cerbydau

**26 Mawrth 2025**
Rhaglen:
- Diweddariad Ariannol
- Ailstrwythuro Mannau Agored
- Dweud eich Dweud AFfCh

## Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Hybu Iechyd Corfforaethol

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd yn ystod 2024-2025

## Cyfarfod Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch

**15 Mawrth 2024**
Rhaglen
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol – 24 Tachwedd 2023

- Archwiliad Diogelwch Safle Iechyd a Diogelwch Blynyddol – SNAP (RE)
- Offer Sgrin Arddangos – Symud i DASH (KB)
- Trefniadau ar gyfer Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth (KB)
- Strategaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (RE)
- Adborth Archwiliad CSU1
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gwasanaethau
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Undebau

**11 Mehefin 2024**
Rhaglen
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol – 15 Mawrth 2024
- Cyflwyniadau
- Ystadegau Damweiniau
- Hyfforddiant
- Cyflwyniad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Offer Sgrin Arddangos
- Cofrestr Risg Gweithredol Corfforaethol
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Reoli Asbestos
- Ffurflen Cydsyniad i Weithio
- Trefniadau Gwasanaeth
- Archwiliad-CAMMS – Strwythurau Archwilio
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gwasanaethau
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Undebau

**3 Rhagfyr 2024**
Rhaglen
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol – 11 Mehefin 2024
- SNAP (RE)
- DSE (KB)
- Peiriannau ac offer (TM/ RE)
- Trefniadau polisi a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi (Mamau Newydd neu Ferched Beichiog) (DOD)
- Ystadegau Damweiniau (RE)
- Camau gweithredu o ymchwiliadau a'r archwiliad (DOD)
- Hyfforddiant (Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddiogelwch Ymddygiadol) (RE)
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gwasanaethau
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Undebau

## Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch AFfCh 2024-2025

### Cyfarfod Iechyd a Diogelwch Ymgynghoriaeth, Perygl Llifogydd a Chyfleusterau: 17 Ebrill 2024

Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Adroddiadau ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Archwiliadau Iechyd a Diogelwch (archwiliadau mewnol, allanol a chorfforaethol)
- Diweddariadau Maes Gwasanaeth:
    - Cyfleusterau
    - Perygl Llifogydd a'r Seilwaith
    - Ymgynghoriaeth

**25 Gorffennaf 2024 a 29 Hydref 2024**
Rhaglen:

- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Adroddiadau ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Archwiliadau Iechyd a Diogelwch (archwiliadau mewnol, allanol a chorfforaethol)
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Faes Gwasanaeth:
  - Cyfleusterau
  - Perygl Llifogydd a'r Seilwaith
  - Ymgynghoriaeth
- Asesiadau Risg COSHH

**Cyfarfod Iechyd a Diogelwch Mannau Agored:**
**26 Ebrill 2024**
Rhaglen:

- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Adroddiadau ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Archwiliadau Iechyd a Diogelwch (archwiliadau mewnol, allanol a chorfforaethol)
- Asesiadau Risg – gweithredol a COSHH
- Diweddariadau Maes Gwasanaeth:
  (a) Cefnffordd/A470
  (b) Arfordirol
  (c) De
  (d) Archwiliadau Coed a Chefn Gwlad

**4 Medi 2024**
Rhaglen:

- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Adroddiadau ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Archwiliadau Iechyd a Diogelwch (archwiliadau mewnol, allanol a chorfforaethol)
- Asesiadau Risg – gweithredol a COSHH
- Diweddariadau Maes Gwasanaeth:
  (a) Cefnffordd/A470
  (b) Arfordirol
  (c) De
  (d) Archwiliadau Coed a Chefn Gwlad
- Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau – Croniadau o Ddiffygion
- Meini Prawf ar gyfer Hyfforddiant Diweddaru Gyrwyr – Pwyntiau Sbardun
- Rheoli Chwyn Ymledol
- Ffurflenni Cyfweliad Dychwelyd i'r Gwaith

**17 Rhagfyr 2024**
Rhaglen:

- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Adroddiadau ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Archwiliadau Iechyd a Diogelwch (archwiliadau mewnol, allanol a chorfforaethol)
- Asesiadau Risg – gweithredol a COSHH
- Diweddariadau Maes Gwasanaeth:
  (a) Cefnffordd/A470
  (b) Arfordirol
  (c) De
  (d) Archwiliadau Coed a Chefn Gwlad

- Sgyrsiau Blwch Offer a Recordio
- Arolwg Hinsawdd Ddiogelwch

**Cyfarfod Iechyd a Diogelwch Cymorth Strategol:**
**4 Ebrill 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Archwiliadau Iechyd a Diogelwch (archwiliadau mewnol, allanol a chorfforaethol)
- Briffiadau / diweddariadau tîm

**11 Mehefin 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Adroddiadau ar Ddigwyddiadau
- Archwiliadau Iechyd a Diogelwch (archwiliadau mewnol, allanol a chorfforaethol)
- Briffiadau / diweddariadau tîm:
  - Gwasanaethau Cyllid a Gwasanaethau i Gwsmeriaid
  - Storfa Ganolog
  - Yr Adain Gwybodaeth Rheoli

**8 Hydref 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Adroddiadau ar Ddigwyddiadau
- Archwiliadau Iechyd a Diogelwch (archwiliadau mewnol, allanol a chorfforaethol)
- Briffiadau / diweddariadau tîm:
  - Gwasanaethau Cyllid a Gwasanaethau i Gwsmeriaid
  - Storfa Ganolog
  - Yr Adain Gwybodaeth Rheoli
- Asesiadau risg
  - Tasg/ gweithgaredd
  - COSHH

**Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Rheoli Traffig a Rhwydwaith:**
**15 Ebrill 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Damweiniau a Digwyddiadau
- Asesiadau risg gweithredol
- Diweddariadau Maes Gwasanaeth:
  - Gwasanaethau Parcio
  - Goleuadau Stryd
  - Diogelwch ar y Ffyrdd
  - Gwaith Stryd
  - Traffig a Rheoli Datblygu
- Glanhau cerbydau cyn eu gwasanaethu a'u cynnal a chadw

**18 Gorffennaf 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Damweiniau a Digwyddiadau
- Asesiadau risg gweithredol

- Archwiliadau Mewnol / Allanol / Corfforaethol
- Diweddariadau Maes Gwasanaeth:
  - Gwasanaethau Parcio
  - Goleuadau Stryd
  - Diogelwch ar y Ffyrdd
  - Gwaith Stryd
  - Traffig a Rheoli Datblygu
- Rheoli Fflyd

**17 Hydref 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Damweiniau a Digwyddiadau
- Asesiadau risg gweithredol
- Archwiliadau Mewnol / Allanol / Corfforaethol
- Diweddariadau Maes Gwasanaeth:
  - Gwasanaethau Parcio
  - Goleuadau Stryd
  - Diogelwch ar y Ffyrdd
  - Gwaith Stryd
  - Traffig a Rheoli Datblygu

**Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Cludiant:**
**20 Mehefin 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Damweiniau a Digwyddiadau
- Archwiliadau Mewnol / Allanol / Corfforaethol
- Asesiadau Risg / Gweithdrefnau Gweithio'n Ddiogel
- Diweddariadau Gwasanaeth:
  - O'r Cartref i'r Ysgol
  - Fflyd
  - Tramffordd
- Rhaglen Gwyliadwriaeth Iechyd
- Llyfrgell Sgwrs Blwch Offer
- Amodau'r Cerbyd

**12 Medi 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Damweiniau a Digwyddiadau
- Archwiliadau Mewnol / Allanol / Corfforaethol
- Asesiadau Risg / Gweithdrefnau Gweithio'n Ddiogel
- Diweddariadau Gwasanaeth:
  - Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Teithwyr
  - Fflyd
  - Tramffordd
- Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau – croniadau o ddiffygion
- Meini Prawf ar gyfer Hyfforddiant Diweddaru Gyrwyr – pwyntiau sbardun
- Rhaglen Gwyliadwriaeth Iechyd

**10 Rhagfyr 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Damweiniau a Digwyddiadau
- Archwiliadau Mewnol / Allanol / Corfforaethol
- Asesiadau Risg / Gweithdrefnau Gweithio'n Ddiogel
- Diweddariadau Gwasanaeth:
  - Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Teithwyr
  - Fflyd
  - Tramffordd
- Cyflwyno Sgyrsiau Blwch Offer a Recordio
- Arolwg Hinsawdd Ddiogelwch

**Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Gwastraff:**
**11 Ebrill 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Adroddiad ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Gwastraff: Cofrestr cyflwyniad diogelwch electronig
- Diweddariadau goruchwyliwr
- Glendid cerbydau – cyn eu gwasanaethu a'u cynnal a chadw

**10 Gorffennaf 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol
- Adroddiad ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Gwastraff: Cofrestr cyflwyniad diogelwch electronig
- Diweddariadau'r goruchwyliwr
- Glendid cerbydau – cyn eu gwasanaethu a'u cynnal a chadw

**28 Tachwedd 2024**
Rhaglen:
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac olrhain camau gweithredu
- Adroddiad ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Diweddariadau goruchwyliwr
- Cyflwyno Sgyrsiau Blwch Offer a Recordio
- Arolwg Hinsawdd Ddiogelwch

## Cyfarfodydd Undeb Addysg Conwy / Conwy Education Union Meetings:
**17/4/2024**
Rhaglen
- Croeso / Welcome
- Iechyd a Diogelwch / Health and Safety
- Materion yn codi o'r Cofnodion diwethaf / Actions arising from previous Minutes
- Diweddariad AD / HR Update
- Diweddariad Cyllid / Finance Update
- Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

**3/7/2024**
Rhaglen
Croeso / Welcome
Materion yn codi o'r Cofnodion diwethaf 17/04/2024/ Actions arising from previous Minutes 17/04/2024
Diweddariad AD / HR Update
Diweddariad Cyllid / Finance Update
Iechyd a Diogelwch / Health and Safety
Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

**23/10/2024**
Rhaglen
- Croeso / Welcome
- Materion yn codi o'r Cofnodion diwethaf 3/7/2024/ Actions arising from previous Minutes 3/7/2024
- Diweddariad gan y Prif Swyddog/ Chief Officer Update
    - Diweddariad ar Uno:
    - Llythyr GMB – Ymweliadau Undeb ag Ysgolion
    - Templed Rhaglen Newydd:
- Diweddariadau Llwyfan Polisi/ Policy Platform Updates
    - Polisi Gofal Personol:
- Newidiadau Strwythur Gwasanaeth/ Service Structure Changes
- Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

**22/01/2025**
Rhaglen
- Diweddariad gan y Prif Swyddog
- Diweddariadau Llwyfan Polisi AD
    - Diweddariad Diswyddo
- Iechyd a Diogelwch
- Newidiadau Strwythur Gwasanaeth
- Unrhyw Fater Arall

**Atodiad 3**

# Ymddygiadau a nodwyd ar gyfer gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol

Nod yr ymddygiadau hyn yw creu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhwysol, gan sicrhau cyfathrebu a chefnogaeth effeithiol o fewn y sefydliad. Maent yn gysylltiedig â gwerthoedd Conwy:

- Rydym yn DEG â phawb
- Rydym yn YMFALCHÏO yn ein gwaith
- Rydym yn GWEITHIO FEL TÎM
- Rydym yn ARLOESOL

| Teg | Ymfalchïo |
|---|---|
| **T** - Teg<br>**D** - Dilys<br>**C** - Cynhwysol<br>**P** - Parchus | **Y** - Ystyriol<br>**A** - Agos Atoch<br>**C** - Cydnabyddiaeth<br>**E** - Empathi |
| **Chwaraewyr Tîm** | **Arloesol** |
| **E** - Ethos Tîm<br>**Y** - Ymgysylltiol<br>**H** - Hyblyg<br>**M** - Mentora | **G** - Gonestrwydd<br>**Rh** - Rhwydweithio<br>**M** - Meithrin<br>**M** - Meddwl Agored<br>**G** - Gweledigaethol<br>**A** - Atebol<br>**T** - Torri Cwys Newydd<br>**B** - Blaengar<br>**A** - Amlbwrpas<br>**Ll** - Llawn Menter |